# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR CHWEFROR 6ed, 2024

## Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (cadeirydd), Cyng. Emyr Jones, Cyng. Rob Jones, Cyng.Teifi Evans, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Mark Davies, Cyng. Llŷr Evans, Cyng. Roger Davies

**Clerc** Rhian Jones

Cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda 'r Cynghorydd Sharon Thomas ar golli ei mam yn ddiweddar ac hefyd gyda'r Cyng.Rob Jones ar golli ei fam yng nghyfraith.

Galwodd Anwen Davies PCSO i mewn i'n gweld i holi os oedd gennym unrhyw bryderon yn yr ardal. Nododd mae problemau domestig oedd prif achosion yr ardal a bu sawl damwain dros y cyfnod rhewllyd. Rhai wedi codi pryder am hela yn yr ardal hefyd.
Codwyd fod y ffordd sy'n arwain at Troedyraur yn beryglus ofnadwy adeg y rhew oherwydd nad oedd un bocs halen ar yr holl rhiw. Llawer o ddamweiniau wedi digwydd dros y cyfnod hwn.
Mae'n debyg fod Pennaeth y Prif-ffyrdd wedi torri i lawr ar nifer y ffyrdd sy'n cael eu graeanu o hyn ymlaen sydd eto'n achosi pryder mewn ardaloedd gwledig.
Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Heddlu yn fisol i nodi ym mhle bydd ein cyfarfodydd fel fod cyfle iddi alw mewn rhag ofn fod unrhyw bryderon yn y gymuned.

### 1 . Ymddiheuriadau

- Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Sian Williams a'r Cyng.Carol Davies

.

### 2. Datgan Diddordeb

* Cyng Llyr Evans – Cyfraniad at Sioe Dyffryn Teifi
* Cyng Roger Davies a'r Cyng Emyr Jones – Cyfraniad at y We yn Neuadd Coedybryn

### 3. Cofnodion

* Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Ionawr. Cynigiodd y Cyng Mark Davies fod y cofnodion yn gywir.

### 4.Materion yn Codi

4.1 - Rydym yn dal i ddisgwyl ymateb gan Nat west am sefyllfa y Mandate.
4.2 – Rydym yn dal i ddisgwyl ymateb wrth Glwb Pel Droed Ffostrasol am y fainc.
4.3 – Mae Gary Morgan yn mynd i roi pris i ni am hysbysfwrdd newydd i Bentref Ffostrasol, Wedi iddo ddychwelyd o'i wyliau.
4.4 – Rydym yn bwriadu trefnu cwrs De-fib, gobeithio yn Neuadd Fostrasol ar Fawrth 20fed. Angen i'r Clerc holi os yw'r Neuadd ar gael ar y noson hynny. Yna gobeithio gall y digwyddiad gael ei rannu ar dudalen Facebook Ffrindiau Ffostrasol.
4.5 - Beiciau Gwaed Cymru – heb dderbyn y ffurflenni prioidol ar gyfer rhoi cyfraniad.
4.6 – Heb glywed dim wrth Derryck na Gwyn am yr Audit o'r blynyddoedd cynt.

4.7 – Manylion arwydd T.Llew Jones – gwerth holi Owenna Davies o Ffostrasol i weld os oes ganddi'r manylion sydd angen ar y poster cyn cysylltu gyda Boomerang.
4.8 – Mainc i'r Ardal. Un yn Bwlchygroes. Y Cadeirydd wedi holi Eglwys Troedyraur am osod mainc tu allan. Rhaid bod y fainc yn cyd-fynd gyda'r amgylchedd, felly efallai byddai modd symud un o'r meinciau presennol a gosod yr un newydd mewn lle gwahanol. Ni fyddai mainc lliwgar yn addas tu allan yr Eglwys.
4.9 – Bydd angen i ni drio adnewyddu'r system Office 365 yn y cyfarfod nesaf yn Rhydlewis gan bod Wi-Fi yno.
4.10 – Mae'r cyfraniadau wedi bod yn agored am fis ychwanegol ac ond wedi derbyn un cais arall.
4.11 – Cyrsiau – rhai wedi cwblhau Modiwl 1 yn barod.

**5. Cwrs De-Fib**

* Wedi trefnu dyddiad ar Fawrth 20fed os fydd Neuadd Ffostarsol ar gael.

**6. Materion y Cynghporydd Sir.**

- Ymddiheuriodd am ei absenoldeb dros yr ychydig fisoedd diwethaf.
- 6.1 – Y gyllideb yn bwnc llosg. Mae Cerdigioin fel ardal wledig yn dioddef. Mae sawl gweithdy wedi bod yn ddiweddar. Y trafodaethau yw sut mae modd gwneud toriadau i arbed arian oherwydd mae'r cyhoedd yn mynd i weld effaith aruthrol y flwyddyn ariannol nesaf. Yn anffodus, nid yw'n edrych yn dda i Geredigion ynghyd a nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru.Caiff llawer o doriadau eu gwneud a bydd codiad yn Nhreth y Cyngor – mae problem ddwys ar y gorwel.
- 6.2 – Mae gwaith ymlaen yn Aberaeron yn ymwneud a diogelu'r arfordir.
- 6.3 – AGS - Mae Awdit Cymru yn trin a thrafod.
- 6.4 – Braf gweld cysylltiad gydag aelod o'r Heddlu ar ddechrau ein cyfarfod heno.
- 6.5 – Profedigaeth Lyn Davies ym mhentref Coedybryn ar drothwy ei benblwydd yn 100. Y Clerc i anfon llythyr o gydymdeimlad at ei ferch Dilys.

**7.Gohebiaeth**

7.1 – Mae Pwyllgor ardal Cerdigion wedi bod yn ddiweddar.
7.2 – Prifweithredwr Cyngor Sir Ceredigion yn nodi bydd arian yn llai y flwyddyn nesaf.
7.3 – Sgrinio Calonnau Cymru – yn Mwldan ar Ebrill 6ed.
7.4 – Ben Lake wedi anfon holiadur am Fanciau lleol. Barn y bobl yn bwysig, felly gorau i gyd y mwyafrif sy'n ei lenwi.
7.5 – Audit Cymru – cynllun ffioedd 2024.
7.6 – Cronfa Cynnal y Cardi wedi ail agor ar Chwefror 1af.
7.7 – Gwahoddiad wedi dod i Barti Garddwest y Brenin ym Mhalas Buckingham. Rhai sydd wedi bod eisioes wedi mwynhau – diwrnod bythgofiadwy. Croeso i unrhyw un nodi gwaith da rhywun o'r Gymuned er mwyn rhoi ei enw ymlaen i fynychu'r digwyddiad hwn.
( Cynnig enw Mrs Llinos Davies o Ffostrasol am ei gwaith da yn ystod Covid. Derbyniodd anrhydedd a chanmoliaeth uchel yn rhinwedd ei swydd.)
7.8 – Cymdeithas yr Iaith – barn am lety gwyliau. Tai annedd/ Llety gosod hir a byr dymor. Mae cymaint o dai gwyliau o gwmpas y lle ac mae prisau tai yn codi. Wedi trafod hyn.
7.9 – Dosbarthodd y Cyng Maldwyn Lewis amlenni a dderbyniodd am y golled o Bwcabys yn y gymuned.

**8.Cynllunio**

**9. Adrodd nol o'r Cwrs**
*** Modiwl 1. –** 55 munud ar Zoom
3 Cynghorydd eisioes wedi gwneud y Cwrs a mwy nos Yfory.
Mae newidiadau wedi bod ers 2021.
Dylai Cyfarfodydd fod ar Zoom /Owl – mae hawl gan aelodau o'r cyhoedd ymuno a chlywed a gwrando ar rannau o'i dewis o'r cyfarfodydd. Mae'r cyfarfodydd yn eiddo i'r Cyhoedd.
Rhaid fod yr offer gennym rhag ofn bydd rhywun yn holi am ymuno.
Mae angen pawb i gael hyfforddiant, gan gynnwys y Clerc.
Mae 11 o Gynghorwyr yn Troedyraur ac maent yn gyfuniad o gymunedau Llangynllo a Throedyraur.

Nos yfory bydd y Cyng Ceri Jones yn gwneud Modiwl 1, ac os bydd modd i'r Clerc drefnu ar fyr-rybudd, gobeithio gall Y Cynghorwyr Roger Davies, Llyr Evans  Maldwyn Lewis ymuno hefyd.

**10. Blwch halen rhiw Troedyraur**

Gallai damwain drasig ddigwydd yn y dyfodol agos ar y ffordd hon gan nad oes unrhyw flwch halen am filltir a hanner o riw serth.  Mae'n bwysig cael rhai ar riw Troedyraur, ger yr Eglwys ac hefyd ger sgwar Ael-y-bryn. Byddai prynnu blwch a 'i lenwi yn costio oddeutu £300, ond byddai hwn yn gost parhaol oherwydd byddai rhaid i ni fod yn gyfrifol am ei ail-lenwi hefyd. Y Clerc i gysylltu gyda CLIC yn nodi'r damweiniau diweddaraf a bod yr Heddlu a'r Frigad Dan wedi bod yno. Hefyd byddai gwerth nodi fod rhai wedi holi eisioes am rai ar sgwar Penrhiwpal ac hefyd ger Twrgwyn – er mwyn bod yn deg gyda pawb.

**11. Cyfraniadau**
11.1 – Mae Sioe Amaethyddol Castell Newydd Emlyn wedi holi am £500 i gyfrannu at brynnu container i storio adnoddau.
11.2 – Mae Neuadd Coedybryn wedi holi am £300 tuag at gael Wi-Fi yn y neuadd. Cynigiodd y Cyng Teifi Evans fod y cyfraniad yma'n ddilys ac eiliwyd gan y Cyng Mark Davies.
11.3 – Mae llai wedi holi am gyfraniadau eleni ac efallai erbyn y flwyddyn nesaf y dylem ail-ystyried faint fyddwn yn holi am at gyfraniadau yn ein Praesept.

**12. Cyllid**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Taliadau** | HMRC - | £104.00 (PAYE) | 001740 |
| | Cyflog y Clerc - | £416.18 ( cynnwys backpay) | 001739 |
| | Ashmole & Co | £90.00 | 001741 |

Cytunodd pawb oedd yn bresenol  i ni dalu'r anfonebau  ac arwyddodd Y Cyng Roger Davies a'r Cyng Mark Davies y sieciau.

**13. Materion Ardal**

**FFOSTRASOL** - Mae twll ar y ffordd sy'n arwain at Penrhiwpal (CLIC)
Mae'r bollard yn parhau ar y pafin ar y ffordd o Ffostrasol i Bwlchygroes. Mae hwn yn beryglus, oherwydd mae pobl sydd phram yn gorfod mynd allan ar y ffordd fawr er mwyn pasio.(CLIC)

**PENRHIWPAL –** Y lamp sydd gyferbyn ar ffordd am Coedybryn ddim yn gweithio. (CLIC)

**COEDYBRYN –** Mae angen newid y padiau De-fib.

**CROESLAN –** Mae'r clawdd wedi gordyfu dros arwydd cyflymder islaw na'r arhosfan bws

**BRONGEST -** Mae'r dwr wedi golchi llawer o gerrig man lawr y rhiw ac mae'n beryglus ger y cloddiau oherwydd fod tyllau wedi ymddangos.

**14. CYFRAFOD NESAF**

14.1 –Bydd y Cyfrafod nesaf yn Neuadd Rhydlewis am 7:30 o'r gloch ar y 5ed o Fawrth 2024.

14.2 - Gan nad oedd dim ymhellach i drafod, tynnodd y Cadeiydd y cyfarfod i ben am 10:30 o'r gloch.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

| | |
|---|---|
| -------------------------------------------------------- | -------------------------------------------------- |
| Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) | Dyddiad |